**Dyddiad cyhoeddi** Mawrth 2013

**Gwybodaeth i'r cyhoedd**

NHS
National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin achosion parhaus o aer yn gollwng yn yr ysgyfaint drwy osod falfiau i mewn i'r llwybrau anadlu.

*Mae arweiniad Techlechyd NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ynghylch pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir gosod falfiau i mewn i'r llwybrau anadlu er mwyn trin pobl ag achosion parhaus o aer yn gollwng yn yr ysgyfaint. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu dyllu'r croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau'n cwmpasu p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynghylch arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi llunio'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Mae hyn yn golygu nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Lluniwyd y ddogfen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt i benderfynu a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio achosion o aer yn gollwng yn yr ysgyfaint na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg er mwyn eich helpu i wneud penderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os yw meddyg am osod falfiau i mewn i'r llwybrau anadlu er mwyn trin achosion parhaus o aer yn gollwng yn yr ysgyfaint, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynghylch pa mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau posibl y driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r ddogfen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith i fonitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Fel arfer, ystyrir gosod falfiau i mewn i'r llwybrau anadlu i drin achosion parhaus o aer yn gollwng yn yr ysgyfaint pan na fydd triniaethau eraill wedi gweithio neu pan na fyddant yn bosibl. Dylai tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â phrofiad cyflyrau yn y frest benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon. Dylai'r tîm gynnwys meddyg sy'n arbenigo mewn trin cyflyrau yn y frest a llawfeddyg sy'n arbenigo mewn llawdriniaethau ar y frest.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach i'r broses o fewnosod falfiau i mewn i'r llwybrau anadlu a gall adolygu'r driniaeth os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

## Trin achosion parhaus o aer yn gollwng yn yr ysgyfaint drwy osod falfiau i mewn i'r llwybrau anadlu.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer achosion o aer yn gollwng. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi ac unrhyw driniaethau eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'gosod falfiau endobronciaidd i drin achosion parhaus o aer yn gollwng'.

Term meddygol yw endobronciaidd sy'n golygu 'y tu mewn i bibellau aer yr ysgyfaint'.

Ni ddisgrifir y driniaeth yn fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr am ddisgrifiad llawn.

Gall aer ollwng o'r ysgyfaint ar ôl llawdriniaeth ar y frest neu oherwydd anaf i'r frest neu glefyd yr ysgyfaint. Os bydd aer yn gollwng o'r ysgyfaint i mewn i ardal rhwng yr ysgyfaint a chawell yr arennau, gall yr ysgyfaint ymgwympo a gall hyn achosi anhawster wrth anadlu. Fel arfer caiff achosion o aer yn gollwng eu trin drwy ddraenio'r frest dros dro (mewnosod tiwb drwy'r croen a chawell yr arennau) sy'n tynnu'r aer o'r ardal rhwng yr ysgyfaint a cheudod yr arennau. Yna bydd yr ardal sy'n gollwng aer yn aml yn selio ac yn cau. Weithiau ni fydd yn selio a bydd angen triniaeth bellach, fel llawdriniaeth neu flewrodesis (triniaeth i gau'r gofod rhwng y meinweoedd sy'n gorchuddio'r ysgyfaint).

Y nod wrth osod falfiau i mewn i'r llwybrau aer ar gyfer achosion parhaus o aer yn gollwng yw lleihau neu atal achosion o aer yn gollwng er mwyn i weddill yr ysgyfaint allu gweithredu'n normal. Y nod hefyd yw helpu meinwe'r ysgyfaint o amgylch yr ardaloedd sy'n gollwng i wella'n naturiol ac felly atal y gollyngiadau. Rhoddir anesthetig lleol neu lonyddwr i'r claf. Caiff pibell hyblyg wag denau â chamera ar ei phen (brongosgôp) ei gosod drwy drwyn neu geg y claf i mewn i'r ysgyfaint. Nodir yr achos o aer yn gollwng ac yna caiff falfiau unffordd bach eu pasio drwy'r brongosgôp a'u gosod i mewn i'r llwybr aer. Gellir gosod

mwy nag un falf. Gellir tynnu'r falfiau pan fydd yr ardal sy'n gollwng aer ar wyneb yr ysgyfaint wedi selio.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig gosod falfiau i mewn i'ch llwybrau aer ar gyfer achosion parhaus o aer yn gollwng, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cynnal y driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y ddogfen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny'n berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 8 astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth o 40 o gleifion a gafodd y driniaeth ei bod wedi atal yr aer rhag gollwng yn llwyr yn achos 19 o gleifion ac wedi ei atal yn rhannol yn achos 18 o gleifion. Ni welwyd unrhyw newid mewn dau glaf.

Mewn astudiaeth o saith claf, yn achos pum person tynnwyd draeniau'r frest tua 16 diwrnod ar ôl y driniaeth (weithiau gadewir draeniau'r frest yn eu lle ar ôl i'r falf gael ei gosod er mwyn rhoi amser i'r meinwe wella). Yn achos un claf, gwelwyd achosion pellach o aer yn gollwng ar ôl i'r falf gael ei thynnu 15 diwrnod yn ddiweddarach.

Canfu astudiaeth o bedwar claf fod gosod falfiau wedi helpu i atal yr ysgyfaint rhag ymgwympo yn y tri chlaf.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedwyd mai'r prif ffactorau llwyddiant oedd pa mor hir y mae'r aer yn gollwng, os caiff nifer yr achosion o aer yn gollwng eu lleihau neu eu hatal, os yw cleifion yn gallu gadael yr ysbyty yn gynt, os yw cleifion yn treulio llai o amser yn yr uned gofal dwys neu uned dibyniaeth uchel, os oes llai o angen am awyru (cymorth meddygol i anadlu), ac os yw ansawdd bywyd yn gwella.

### Risgiau a phroblemau posibl

Yn achos un claf, roedd y falf wedi symud o'i safle ar ôl deufis ac fe'i tynnwyd bum mis ar ôl y driniaeth. Nododd astudiaeth o 40 o gleifion fod y falfiau wedi'u gosod yn y safleoedd anghywir mewn rhai cleifion ac y bu'n rhaid eu symud. Nododd yr astudiaeth hon hefyd achos lle cafodd falf ei besychu.

Ymhlith y problemau eraill roedd haint ar y frest, ac yn achos un claf, gwnaeth rhan o'i ysgyfaint ymgwympo'n rhannol.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedwyd bod problemau posibl yn cynnwys yr achos o aer yn gollwng yn dychwelyd neu aer yn dechrau gollwng rhwng yr ysgyfaint a cheudod yr arennau unwaith eto, pesychu gwaed, diffyg yn yr ysgyfaint, haint neu niwmonia (llid y meinwe yn yr ysgyfaint), a meinwe'n ffurfio o amgylch y falfiau (mewn ymgais i wella'r ardal lle mae'r falf). Dywedwyd hefyd y gallai'r driniaeth, mewn egwyddor, achosi marwolaeth.

## Rhagor o wybodaeth am achosion o aer yn gollwng yn yr ysgyfaint

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

I gael manylion canllawiau NICE ar achosion o aer yn gollwng a chyflyrau sy'n achosi'r rhain, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol gwahanol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â 'Gosod falfiau endobronciaidd ar gyfer achosion parhaus o aer yn gollwng'. Mae'r ddogfen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn guidance.nice.org.uk/HTG306*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8817-4
N2911 March 2013

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2013. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.